

# Y Sector Dofednod Briff Ymchwil

Hydref 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**  
E-bost: [Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru](mailto:Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru)  
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)  
Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Senedd Ymchwil**

# Y Sector Dofednod

## Briff Ymchwil

Hydref 2018

### **Awduron:**

Jessica Laimann ac Elfyn Henderson

### **Trosolwg o'r papur:**

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r sector dofednod yng Nghymru. Mae'n nodi'r prisiau diweddaraf ar gyfer cig dofednod ac wyau wrth gât y fferm ac yn nodi datblygiadau diweddar mewn niferoedd masnach, cyflenwad a chynhyrchwyr byd-eang. Mae hefyd yn amlinellu trefniadau prosesu a chytundebol, a sut y mae'r sector yn cael ei reoleiddio. Yn olaf, mae'r papur briffio hwn yn trafod effaith bosibl Brexit.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Jessica Laimann gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'i galluogodd i gwblhau'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.



## Contents

<b>Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>Prisiau .....</b>	<b>2</b>
Prisiau cig dofednod.....	2
Prisiau wyau wrth gât y fferm yn y DU.....	3
<b>Masnach fyd-eang .....</b>	<b>4</b>
Cig dofednod .....	4
Allforion y DU.....	5
Mewnforion y DU .....	5
Wyau .....	5
<b>Cyflenwad y DU .....</b>	<b>6</b>
Cig dofednod .....	6
Wyau .....	7
Elw cadwyni cyflenwi .....	9
<b>Cynhyrchwyr Cymru.....</b>	<b>10</b>
<b>Prosesu a chynhyrchion.....</b>	<b>12</b>
Cig dofednod .....	12
Wyau .....	12

<b>Trefniadau cytundebol yn y gadwyn gyflenwi.....</b>	<b>14</b>
Argaeledd contractau .....	14
Codau ymarfer .....	14
<b>Materion amgylcheddol a rheoleiddio.....</b>	<b>15</b>
Rheoleiddio .....	16
Cynllunio .....	16
Trwyddedu Amgylcheddol.....	17
Datblygiadau diweddar.....	18
<b>Y diwydiant dofednod ar ôl Brexit .....</b>	<b>19</b>
<b>Ffynonellau allweddol .....</b>	<b>21</b>

## Cyflwyniad

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg cyffredinol o sefyllfa bresennol y sector cig ac wyau dofednod yn y DU, gan gyfeirio'n benodol at Gymru. Mae'r diwydiant cig ac wyau dofednod yn sector amaethyddol cymharol fach yn y DU. Yn 2017, roedd cig ac wyau dofednod yn cyfrif am **11.5 y cant o gynhyrchiant amaethyddol yn y DU** yn ôl gwerth, ac am **6.1 y cant yng Nghymru**. Mae gan gig ac wyau dofednod gyfrannau cyfartal yn fras o gyfanswm gwerth cynhyrchiant amaethyddol Cymru, gyda 2.8 y cant ar gyfer cig dofednod a 3.3 y cant ar gyfer wyau yn 2017. Mae hyn yn sylweddol wahanol i'r DU gyfan, lle mae gwerth cig dofednod bron pedair gwaith gwerth wyau.

Rhwng 2016 a 2017, gostyngodd gwerth cig dofednod yng Nghymru **4.3 y cant** o £47 miliwn i £45 miliwn. Yn yr un cyfnod, cododd gwerth wyau **bron 27 y cant** o £41 filiwn i £52 miliwn. Mae marchnad dofednod y DU wedi bod yn destun anwadalrwydd parhaus, sy'n rhannol oherwydd cyfyngiadau masnach sy'n gysylltiedig ag achosion mynych o fflw adar. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2018, mae bwyta cig dofednod yn boblogaidd (**42 y cant o gyfanswm y cig sy'n cael ei fwyta yn y DU**) a disgwylir i'r sector ehangu eto.


## Prisiau

### Prisiau cig dofednod

Gan fod y rhan fwyaf o gig dofednod yn y DU yn cael ei gynhyrchu mewn systemau wedi'u hintegreiddio'n fertigol, dim ond prisiau cyfanwerthwr i fanwerthwr sydd ar gael. Terfynodd Defra **y set ddata ar ôl mis Ebrill 2016**, ond mae wedi rhoi'r prisiau hyd at fis Ebrill 2017 i'r Gwasanaeth Ymchwil.

Yn gyffredinol, mae ffyledau brest cyw iâr a thwrci'n denu prisiau uwch na brwyliaid (ieir bwyta) a ffowls rhostio (adar sy'n hŷn ac yn drymach na brwyliaid) (gweler Ffigur 1). Mae'r prisiau ar gyfer brwyliaid, ffowls rhostio, a thwrcwn wedi bod yn gymharol gyson rhwng 2014 a 2017, gyda brwyliaid yn denu tua 150 o geiniogau fesul cilo (ppk), ffowls rhostio tua 130 ppk a thwrcwn tua 330 ppk. Dargyfeiriodd prisiau ar gyfer ffyledau brest cyw iâr o'r duedd hon. Rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2017, bu iddynt gynyddu 36 y cant, ac yna cafwyd ychydig o ostyngiad tan fis Mai 2017.

Gall tanysgrifwyr i'r cylchgrawn **Poultry World** gael gafael ar y prisiau diweddaraf.




Ffigur 1: Prisiau cyfanwerthwr i fanwerthwr cyfartalog y DU mewn ceiniogau fesul cilo ar gyfer dofednod cartref. Ffynhonnell: Defra.

\*Nid yw'n cynnwys prisiau ar gyfer ffyledau brest heb eu graddnodi. Caiff cyw iâr wedi'i raddnodi ei gynhyrchu a'i gyflenwi o fewn amrediad pwysau penodol, sy'n golygu bod y cyw iâr yn cael ei gyflenwi fel maint rheolaidd.

### Prisiau wyau wrth gât y fferm yn y DU

Mae prisiau wrth gât y fferm yn cynrychioli'r pris cyfartalog y mae pacwyr wyau'n ei dalu i gynhyrchwyr wyau. Yn gyffredinol, mae prisiau uwch ar wyau maes nag wyau ieir mewn cewyll gwell (**disodlwyd cewyll batri gan gewyll gwell yn 2012, yn dilyn gwaharddiad gan yr UE**). Yn chwarter cyntaf 2018, y **pris wrth gât y fferm** oedd 54.1 o geiniogau fesul dwsin (ppd) ar gyfer wyau ieir mewn cewyll gwell a 82.7 ppd ar gyfer wyau maes. Y **pris cyfartalog wrth gât y fferm ar gyfer pob math o wyau** oedd 71.3 ppd. Cynydd o 0.6 y cant yw hyn o'r un chwarter yn 2017.

Nid yw prisiau wrth gât y fferm ar gyfer wyau sgubor ac wyau organig wedi bod ar gael ers 2012. **Mae'r data diweddaraf sydd ar gael** o 2011 yn dangos mai pris wyau sgubor yw 72 ppd ac mai pris wyau organig yw 138.3 ppd.



Ffigur 2: Prisiau cyfartalog wrth gât y fferm yn y DU mewn ceiniogau fesul dwsin (ppd) ar gyfer pob math, wyau ieir mewn cewyll gwell ac wyau maes. Ffynhonnell: Defra.

## Masnach fyd-eang

### Cig dofednod

Mae fflw adar **wedi effeithio ar y fasnach fyd-eang yn fynych** yn y gorffennol. Cafwyd achosion yn 2015 ac eto yn hanner cyntaf 2017, yn union wrth i'r diwydiant ddechrau adfer. Yn ail chwarter 2017, creodd heriau fflw adar, ar y cyd â **sgandal cig Brasil** y 'storm berffaith', gan arwain at **ostyngiad o 5 y cant mewn masnach fyd-eang** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd cyfyngiadau masnach sy'n gysylltiedig â fflw adar, collodd yr UE gyfranddaliadau'r farchnad i Wlad Thai ac UDA.

Creodd adennill y galw, ynghyd â chyflenwad tyn yn sgil y 'storm berffaith', amodau ffafriol **ddechrau 2018**. Fodd bynnag, yn ail chwarter 2018, cafodd rhagolygon eu tywyllu oherwydd **darpar ad-drefniad masnach**. Mae Rabobank yn rhagweld **aflonyddwch ar gyfer y diwydiant cig dofednod byd-eang** a achosir gan gyfyngiadau masnach fflw adar parhaus, ymchwiliadau i sgandal cig Brasil, a'r gwaharddiad sydd ar ddod ar stynio ar gyfer allforion i Saudi Arabia. Gallai hyn gynnwys prisiau cynyddol i gynhyrchwyr lleol yn yr UE.

Mae data ar y fasnach fyd-eang ar gyfer cig dofednod ar gael ar gyfer cyw iâr a thwrci, ond nid ar gyfer segmentau llai o'r farchnad fel hwyaden neu wÿdd.

Mae **allforion cyw iâr wedi'i rewi**, a oedd yn werth \$16.1 biliwn o allforion cig cyw iâr byd-eang yn 2017, yn cynnwys cig o Frasil, yr Unol Daleithiau a'r Iseldiroedd yn bennaf. **Mae cyw iâr ffres ac wedi'i oeri**, a oedd yn werth \$5.9 biliwn, yn cael ei allforio gan wledydd yr UE (yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl a Gwlad Belg) yn bennaf.

Yn 2016, **cyfanswm gwerth allforion twrci byd-eang** oedd \$2.5 biliwn. Mae cyfanswm allforion twrci yn cynnwys cig ffres neu gig wedi'i oeri (55.5 y cant) a chig wedi'i rewi (44.5 y cant). Hyd at fis Gorffennaf 2018, nid yw data ar allforion twrci yn 2017 ar gael.

Yn 2016, y **prif wledydd sy'n mewnforio** cynhyrchion cig dofednod yn ôl gwerth oedd yr Almaen, yr Iseldiroedd, a'r DU, wedi'u dilyn gan farchnadoedd Asiaidd fel Hong Kong a Saudi Arabia.

### Allforion y DU

Yn 2017, allforiodd y DU **dros 396,100 o dunelli o gig dofednod (PDF 1.28MB)**, sef 21.9 y cant o gyfanswm cynhyrchiant y DU. Cafodd tua 80 y cant o hyn ei allforio i wledydd yr UE. Yn gyfan gwbl, roedd allforion y DU yn werth oddeutu £396.2 miliwn. Mae allforion **yn cynnwys cig tywyll yn bennaf** (fel coesau a chluniau) ac offal, sy'n llai poblogaidd gyda defnyddwyr y DU na chig brest. Cynyddodd allforion y DU 17.1 y cant mewn maint a 13.2 y cant mewn gwerth o gymharu hyn â'r flwyddyn flaenorol.

### Mewnforyn y DU

Mewnforydd y DU dros **867,400 o dunelli o gig dofednod yn 2017 (PDF 1.28MB)**. Mae hyn yn cyfateb i bron £2.253 biliwn mewn gwerth ac mae'n cyfrif am 38.1 y cant o gyfanswm y cig dofednod sy'n cael ei fwyta yn y DU. Daw tua thri chwarter o fewnforyn cig dofednod y DU o wledydd yr UE, sy'n cyflenwi tua hanner o'r holl fewnforyn cig wedi'i brosesu a bron yr holl fewnforyn cig dofednod ffres ac wedi'i rewi i mewn i'r DU.

Y prif gyflenwr o gig dofednod i'r DU yw'r Iseldiroedd, a oedd yn cyfrif am **fwy na chwarter (PDF 1.28MB)** o fewnforyn dofednod y DU yn 2017. Er bod yr Iseldiroedd yn cyflenwi cig dofednod ffres ac wedi'i rewi yn bennaf i'r DU, Gwlad Thai yw cyflenwr mwyaf y DU ar gyfer cig dofednod wedi'i brosesu. Yn 2017, cig dofednod wedi'i brosesu Gwlad Thai oedd bron 16 y cant o fewnforyn cig dofednod y DU.

### Wyau

Mae masnach ryngwladol y DU mewn wyau yn gymharol gyfyngedig. Yn 2017, allforiodd y DU **tua 149.8 miliwn o wyau (PDF 1.28MB)**, sef 1.25 y cant o'r **amcangyfrif o gyfanswm cynhyrchiant y DU** ar gyfer yr un flwyddyn. Roedd 71 y cant o allforion yn wyau cregyn (wyau a werthir yn eu cregyn mewn cyflwr naturiol) a 29 y cant o gynhyrchion wyau eraill (cynhyrchion wedi'u prosesu neu wyau hylif). Dros yr un cyfnod, mewnforydd y DU **1.98 biliwn o wyau (PDF 1.28MB)**, sef 15.3 y cant o **gyfanswm yr hyn sy'n cael ei fwyta**. Mae mewnforyn wyau yn y DU yn cynnwys cynhyrchion wyau eraill yn bennaf (tua 70 y cant). Rhai cartref yn bennaf yw'r wyau plisgyn sy'n cael eu bwyta yn y DU.

## Cyflenwad y DU

### Cig dofednod


**Cyfanswm cynhyrchiant cig dofednod y DU** ym mis Ebrill 2018 oedd 182,800 o dunelli, sef cynnydd o 3.7 y cant o'i gymharu â'r un mis yn 2017. Brwyliaid oedd bron 90 y cant o'r cyfanswm cynhyrchiant cig dofednod, ac yna tyrcwn (5 y cant), ffowls berwi (ieir hŷn i'w stiwiwio, 3 y cant) a hwyaid (1 y cant). Mae'r uchafbwynt blynyddol o ran nifer y tyrcwn sy'n cael eu lladd adeg y Nadolig yn cyd-fynd â'r isafbwynt blynyddol o ran nifer y brwyliaid sy'n cael eu lladd ar yr un adeg.

Mae'r **niferoedd lladd blynyddol** yn awgrymu bod cynhyrchiant brwyliaid y DU wedi cynyddu'n raddol ers y cofnodion cyntaf sydd ar gael ym 1994. Mae'r duedd hon wedi parhau yn y blynyddoedd diwethaf (gweler Tabl 1). Mae cynhyrchiant ffowls berwi'n dilyn y datblygiad hwn i raddau helaeth, ond mae wedi bod yn fwy cyfnewidiol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cynhyrchiant tyrcwn wedi dioddef dirywiad cyson ers 1999, er y bu cynnydd bach yn 2015.

	Brwyliaid	Ffowls berwi	Tyrcwn
2013	888.8	44.1	17.4
2014	904.6	42.7	18.5
2015	915.1	49.1	16.0
2016	962.8	49.5	16.5
2017	1,015.6	57.4	15.2

Tabl 1: Nifer y dofednod sy'n cael eu lladd yn flynyddol yn y DU mewn miliwn o adar. Ffynhonnell: Defra

Yn 2017, roedd Cymru yn cyfrif **am 2 y cant o gyfanswm cynhyrchiant cig dofednod y DU** yn ôl gwerth. Er i gynhyrchiant cig dofednod yn ôl gwerth gyrraedd uchafbwynt yn 2013 o ran **Cymru (£71 filiwn)** a'r **DU (£2.465 biliwn)**, bu gwahaniaethau amlwg mewn datblygiadau diweddar. Er bod lefelau cynhyrchu y DU, ar ôl dioddef dirywiad bach, wedi dychwelyd bron i'w gwerthoedd uchaf yn 2013 erbyn 2017, cafodd cynhyrchiant cig dofednod yng Nghymru ostyngiad o 37 y cant dros yr un cyfnod (gweler Ffigur 3).




Ffigur 3: Cynhyrchiant cig dofednod yn ôl gwerth yng Nghymru ac yn y DU. Mae'r gwerthoedd yn 2010 wedi'u mynegeoio i 100 y cant. Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Defra

### Wyau

Mae Defra yn mesur cynhyrchiant wyau yn y DU o ran nifer yr wyau sy'n cael eu pacio mewn gorsafoedd pacio yn y DU, sy'n cyfrif am bron 90 y cant o'r cyfanswm cynhyrchiant wyau yn y DU. Yn 2017, cyfanswm lladd a phrosesu gorsafoedd pacio'r DU oedd **tua 10.8 biliwn o wyau** (59,951 o gasys, pob un yn cynnwys 360 o wyau). Mae hyn yn awgrymu mai oddeutu 12 biliwn o wyau oedd cyfanswm cynhyrchiant wyau'r DU.

Daeth cyfanswm cynhyrchiant wyau'r DU i **£624 miliwn mewn gwerth**, gyda chynhyrchiant yng Nghymru **yn cyfrif am 8 y cant (£52 miliwn)**. Rhwng 2014 a 2017, cynyddodd cyfradd lladd a phrosesu gorsafoedd pacio o flwyddyn i flwyddyn oddeutu 3 y cant. Ar gyfer chwarter cyntaf 2018, cododd cynhyrchiant **3.8 y cant** o'i gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.



Ffigur 4: Cyfradd lladd a phrosesu gorsafoedd pacio'r DU mewn mil o gasys (360 o wyau fesul cas). Ffynhonnell: Defra.

Yn chwarter cyntaf 2018, **y rhan fwyaf o wyau a gynhyrchwyd yn y DU** oedd wyau maes (51 y cant) ac wyau ieir mewn cewyll gwell (45 y cant). Mae wyau organig ac wyau sgubor yn cynrychioli ffracsiynau bach yn unig, sef 2.5 y cant ac 1.4 y cant yn ôl eu trefn. Er i gynhyrchiant ieir mewn cewyll gwell gynyddu ychydig (1.2 y cant) rhwng 2015 a 2017, cafwyd hwb o 18 y cant i gynhyrchiant wyau maes. Mae cynrychiolwyr **Cymdeithas Cynhyrchwyr Wyau Maes Prydain** wedi mynegi pryderon y gallai'r datblygiad hwn arwain at **orgyflenwi a gostyngiad mewn prisiau**.

Yn ôl **Cyngor Diwydiant Wyau Prydain**, mae dros 90 y cant o wyau'r DU yn cael eu cynhyrchu o dan **gynllun diogelwch bwyd y British Lion**.

## Elw cadwyni cyflenwi

Ni chyhoeddwyd gwybodaeth fanwl am elw cadwyni cyflenwi, ond mae ffynonellau'n awgrymu bod yr elw'n fach. Yn ôl **Bwyd a Diod Cymru**, 'mae effeithlonrwydd cynhyrchu yn allweddol gan fod maint yr elw'n fach'. Pris porthiant, costau cludiant a phris terfynol yr adar yw'r prif ffactorau amrywiol. Mae gweithgor Brexit Llywodraeth Cymru yn adrodd bod ffermydd dofednod yn gymharol fawr oherwydd bod yr **elw fesul uned yn fach** ac mae angen cryn fuddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer cynhyrchu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector dofednod wedi bod yn destun anwadlwydd mawr mewn prisiau porthiant. Rhwng 2013 a 2016, mae **prisiau porthiant cyfansawdd cyfartalog wedi bod yn gostwng** o 30 y cant o'u gwerthoedd uchaf o £311 fesul tunnell yn ail chwarter 2013 i £219 fesul tunnell ddechrau 2016. Ar ôl cyfnod o broffidioldeb cymharol uchel, roedd adroddiadau'r cyfryngau ym mis Gorffennaf 2016 yn **rhagweld elw gostyngol** o ganlyniad i ddechrau cyfnod o gostau porthiant uwch. Erbyn chwarter cyntaf 2018, roedd prisiau porthiant **wedi codi i £249 fesul tunnell**.



## Cynhyrchwyr Cymru

Ym mis Mehefin 2017, roedd y **cyfanswm stoc dofednod yng Nghymru** dros 7.7 miliwn o adar, sef 4.2 y cant o gyfanswm stoc dofednod y DU. Roedd mwy na 97 y cant o ddofednod yng Nghymru yn ieir, ac yna 1 y cant yn dyrchwyn a nifer fach o adar eraill fel hwyaid, gwyddau, ieir gini ac estrysiaid. Yng Nghymru, defnyddiwyd **dros hanner y cyfanswm stoc ieir** ar gyfer cynhyrchu cig, 27 y cant ar gyfer cynhyrchu wyau, a'r gweddill ar gyfer bridio.

Cafwyd **gostyngiad bach** (1.3 y cant) yn nifer y dofednod yn gyffredinol yng Nghymru rhwng 2015 a 2017. Fodd bynnag, bu newid sylweddol mewn cyfansoddiad. Er i'r stoc brwyliaid leihau o 11.7 y cant rhwng 2015 a 2017, cynyddodd nifer yr ieir a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu wyau dros chwarter yn ystod yr un cyfnod. Roedd y datblygiad hwn yn cynnwys ehangiad amlwg o gynhyrchiant wyau maes yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (gweler Adran 8). Mae'n anodd mesur nifer y dofednod yng Nghymru oherwydd bod siediau dofednod yn cael eu gwagio i'w glanhau bob 2-3 mis. Os caiff sied benodol ei gwagio i'w glanhau ar ddiwrnod yr arolwg, gall hyn gael effaith sylweddol ar yr amcangyfrifon ar gyfer nifer y dofednod.

Amlygir yr anhawster hwn oherwydd strwythur diwydiant dofednod Cymru, y mae nifer gymharol fach o gynhyrchwyr mawr yn nodwedd ohono. Yn 2016, roedd **llai na chant o gynhyrchwyr** yn cyfrif am fwy na 90 y cant o ddofednod yng Nghymru. Hysbysodd Llywodraeth Cymru y Gwasanaeth Ymchwil fod 134 o ffermydd dofednod arbenigol yng Nghymru ym mis Mehefin 2017. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ffermydd hyn yn gartref i fwy na 10,000 o adar yr un. At ei gilydd, roedd ffermydd dofednod arbenigol yn cyfrif am 87 y cant o stoc dofednod Cymru yn 2017. Roedd gweddill y stoc dofednod yn cael ei dosbarthu dros fwy na 6,000 o ffermydd bach (llai nag wyth **uned maint Ewropeaidd**) a ffermydd nad ydynt yn arbenigo mewn dofednod. Fel arfer, mae gan y ffermydd hyn lai na chant o adar.

Fel arfer, mae cynhyrchwyr dofednod mawr yn rheoli **cwmnïau wedi'u hintegreiddio'n fertigol** sy'n cyfuno cynhyrchu a phrosesu. Mae cynhyrchu dofednod yng Nghymru yn tueddu i glystyru o gwmpas ffatrioedd prosesu mawr, gydag ardaloedd allweddol ar hyd y ffin â Lloegr ac mewn rhannau o Sir Benfro ac Ynys Môn.

Nid yw data ar incwm cyfartalog ffermydd o ffermio dofednod ar gael ar gyfer Cymru oherwydd nad yw ffermydd dofednod arbenigol (ffermydd â mwy na 1,000 o adar) yn cael eu cynnwys yn yr **Arolwg Busnes Fferm**. Yn Lloegr, cofnododd **ystadegau Defra** incwm fferm dofednod cyfartalog o £54,800 yn 2016-17. Mae'r ystadegau hefyd yn awgrymu bod incwm fferm cyfartalog wedi cynyddu rhwng 2015-16 a 2016-17 ar gyfer pob math o fferm ac eithrio dofednod, lle mae gostyngiad o 49 y cant wedi'i fesur. Y cymhelliad allweddol ar gyfer incymau is o gig dofednod oedd **llai o ladd a phrosesu adar** o gymharu hyn â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gall y gostyngiad sylweddol mewn incwm fod yn rhannol oherwydd maint sampl bach, felly dylid ei drin yn ofalus.

## Prosesu a chynhyrchion

### Cig dofednod


Cwmnïau mawr iawn sy'n gweithredu systemau wedi'u hintegreiddio'n fertigol sy'n rheoli systemau cig dofednod y DU i raddau helaeth. Yn 2016, roedd **un ar ddeg o broseswyr dofednod yn unig** ac **36 o ffatrioedd torri dofednod** wedi'u cofrestru yng Nghymru. Roedd tair o'r un ar ddeg o ffatrioedd prosesu'n broseswyr cig dofednod pwysig yn y DU sy'n aelodau o **Gyngor Dofednod Prydain**. Agorodd ffatri ychwanegol **ym mis Tachwedd 2017 yn Wrecsam**. Cafodd y prosiect gwerth £20 miliwn gymorth £3.15 miliwn gan **Gynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd Llywodraeth Cymru**.

Cododd cyflogaeth **o 40 y cant** rhwng 2010 a 2016 mewn ffatrioedd dofednod yng Nghymru. Roedd hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr (5 y cant) ac mae'n nodi amlygrwydd cynyddol Cymru yn niwydiant Prydain Fawr.

Ni chyhoeddwyd gwybodaeth ynglŷn â faint o gig dofednod sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru sydd hefyd yn cael ei brosesu yng Nghymru, ac i'r gwrthwyneb.

### Wyau

Yn chwarter cyntaf 2018, prynodd proseswyr wyau'r DU **345 miliwn o wyau (21,000 o dunelli)**, gostyngiad o 13 y cant o'r un chwarter y llynedd. Y cyfanswm cynhyrchiant oedd **22,400 o dunelli**, gostyngiad o 3 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017 (gweler Ffigur 5). Wyau hylif oedd ychydig dros ddau draean o'r cyfanswm cynhyrchiant a'r traean arall oedd wyau wedi'u berwi'n galed a chynhyrchion wyau eraill. Sylwer bod y cyfanswm cynhyrchiant yn cynnwys gwaith prosesu a wneir i gwsmeriaid allanol sy'n darparu eu hwyau eu hunain, felly gallant fod yn uwch na'r cyfanswm a brynwyd.



Ffigur 5: Gwerthoedd prynu a chynhyrchu proseswyr wyau'r DU mewn mil o dunelli. Ffynhonnell: Defra.

Rhoddodd Cyngor Diwydiant Wyau Prydain wybod i'r Gwasanaeth Ymchwil nad yw'n ymwybodol o ffatrioedd prosesu wyau yng Nghymru ond mae'n adrodd cryn fuddsoddi mewn adeiladu ffatrioedd newydd a gwella'r rhai presennol dros y blynyddoedd diwethaf yn y DU.

## Trefniadau cytundebol yn y gadwyn gyflenwi

### Argaeledd contractau

Mae gweithgor Brexit Llywodraeth Cymru **wedi dweud bod** 'gan unedau dofednod contractau cyflenwi â phroseswyr ac adwerthwyr. Cedwir rheolaeth glos ar y cyflenwad i farchnadoedd ac ar gostau ac mae'r elw fesul uned yn fach. Mae ffermydd felly'n gymharol fawr a cheir cryn fuddsoddi mewn seilwaith.'

Yn ôl **Bwyd a Diod Cymru**, mae dau fath o contract ar gael i gynhyrchwyr Cymru:

- Mewn cwmnïau wedi'u hintegreiddio'n fertigol, cyrchir cywion a phorthiant i'r ffermwr sy'n cael ei dalu ar gyfer costau gwresogi, naddion, llafur a dibrisiant ac ati; ac
- Yn y sector annibynnol, telir cyfradd y farchnad i ffermwyr ar gyfer eu cynnyrch.

Er y gall contractau mewn cwmnïau wedi'u hintegreiddio'n fertigol gynnig elw da i'r cynhyrchwyr gorau ac elw cymedrol i gynhyrchwyr cymedrol, y mae eu costau'n uwch, gall contractau yn y sector annibynnol gynnig elw bach neu ddim elw i gynhyrchwyr cymedrol.

### Codau ymarfer

Yn y DU, mae'r perthnasoedd contractiol rhwng y deg siop groser fwyaf a'u cyflenwyr uniongyrchol yn cael eu rheoleiddio gan y **Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd**. Mae'r cod hwn yn cwmpasu cynhyrchwyr cig dofednod mawr sy'n gweithredu systemau wedi'u hintegreiddio'n fertigol sy'n cyflenwi'r manwerthwyr yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gan nad yw'r cod yn berthnasol i contractau rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr, nid yw'n cynnwys cynhyrchwyr cig dofednod annibynnol sy'n gwerthu eu cynnyrch i broseswyr. Ym mis Hydref 2016, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar **estyn cylch gorchwyl y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd** yng nghadwyn gyflenwi bwydydd y DU. Fodd bynnag, pan ddaeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2017, ni chafwyd llawer o gefnogaeth dros estyn cylch gwaith y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd.

Yn y sector **cig eidion a chynnyrch llaeth (PDF 1.3MB)**, lle mae'n brin bod cynhyrchwyr yn cyflenwi manwerthwyr mawr yn uniongyrchol, cyflwynwyd codau ymarfer gwirfoddol rhwng cynhyrchwyr a phroseswyr er mwyn gwella telerau contract i gynhyrchwyr. Hyd at fis Mehefin 2018, nid oes cod o'r fath ar waith i gynhyrchwyr cig dofednod nac wyau.

## Materion amgylcheddol a rheoleiddio

Mae'r sector dofednod maes wedi ehangu yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Adlewyrchir hyn mewn codiad yn nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer siediau dofednod. Yn ôl Cangen Aberhonddu a Maesyfed yr **Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig** (YDCW), rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Mehefin 2018, **cyflwynwyd 116 o geisiadau o'r fath ym Mhowys**. Roedd bron tri chwarter o'r ceisiadau am gynhyrchu wyau maes a byddai'r holl geisiadau, at ei gilydd, yn gyfystyr â chapasiti ar gyfer mwy na 3.5 miliwn o adar ychwanegol. Hyd at fis Mehefin 2018, roedd tri chwarter o'r ceisiadau wedi'u cymeradwyo, ni phenderfynwyd ar 24, roedd dau wedi'u gwrthod a dau wedi'u tynnu'n ôl. Mae'r ehangiad wedi'i briodoli i'r ffaith bod dofednod yn **gyfle arallgyfeirio deniadol** a all wella cydnerthedd fferm yn sgil yr heriau posibl a wynebir oherwydd Brexit.

Fodd bynnag, gan fod y sector wedi tyfu, **mae pryderon wedi cynyddu ynglŷn â'r effaith amgylcheddol bosibl**, yn enwedig ar ansawdd dŵr ac aer.

Ym mis Mawrth 2018, cyflwynodd **Afonydd Cymru**, corff ymbarél y chwe ymdiriedolaeth afonydd yng Nghymru, **gŵyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch llygredd amaethyddol (PDF 361KB)** mewn afonydd yng Nghymru a oedd wedi arwain at achos honedig o dorri **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE**. Mae'r gŵyn yn honni nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rheoleiddio gweithgarwch amaethyddol yn ddigonol, gan gynnwys y sector dofednod. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n ystyried y gŵyn.

Ym mis Mai 2018, cyflwynwyd deiseb i'r Cynulliad a oedd yn gofyn i Lywodraeth Cymru **wella rheolaethau'r diwydiant dofednod dwys sy'n ehangu**. Cyflwynwyd y ddeiseb gan Cangen Aberhonddu a Maesyfed o YDCW ac roedd wedi cael mwy na 4,560 o lofnodion. Mae'r prif bryderon a fynegwyd yn y ddeiseb yn cynnwys canfyddiad bod diffyg adnoddau ar gyfer **Cyfoeth Naturiol Cymru** a methiant yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) i ystyried effeithiau cronol unedau dofednod dwys cyfagos. Ym mis Medi 2018, mae'r ddeiseb yn cael ei thrafod gan **Bwyllgor Deisebau'r** Cynulliad.

Mae NFU Cymru wedi dweud wrth y Gwasanaeth Ymchwil y byddai'r sector dofednod yn pwysleisio'r manteision economaidd i gymunedau gwledig o arallgyfeirio i unedau dofednod a bod natur contractiol y sector yn golygu bod ffermwyr yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldeb i ddilyn rheoliadau amgylcheddol. Byddai'r sector hefyd yn dadlau bod manteision i glystyru unedau, megis rhyddineb rhannu arfer da a llai o deithio rhwng unedau i gasglu adar ac wyau.

## Rheoleiddio

Dwy brif elfen sydd o ran rheoleiddio unedau dofednod - y system gynllunio (sef cyfrifoldeb ACLlau) a'r system drwyddedu amgylcheddol (sef cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru). Yn fras, mae angen caniatâd cynllunio ar unedau newydd ac **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol** yn ogystal lle maent yn uwch na throthwyon penodol. Mae hefyd angen **trwydded amgylcheddol** uwchben trothwy penodol. Mae unedau dofednod hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau sy'n ymwneud â risg clefydau i iechyd anifeiliaid a phobl, ac o ran lles anifeiliaid.

## Cynllunio

Rhaid i geisiadau am unedau dofednod gael eu penderfynu yn unol â'r **Cynllun Datblygu Lleol**, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried barn yr ymgynghoreion statudol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru) a chyrff eraill (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ymddiriedolaethau bywyd gwylt lleol) ac unrhyw un arall, gan gynnwys y cyhoedd, sydd â barn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol fodloni eu hunain bod digon o wybodaeth a chyingor arbenigol ar gael iddynt bennu ceisiadau yn gywir.

O ran Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae Rhan 2 o **Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017** yn manylu ynghylch cynigion datblygu a throthwyon cysylltiedig, gan ddiffinio ble mae cynnig i ddatblygu'n golygu datblygiad lle mae angen Asesiad. Mae'r rhain yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Mae Atodlen 1 yn rhestru'r datblygiadau hynny lle mae Asesiad yn orfodol ac mae Atodlen 2 yn nodi lle y mae'n rhaid i'r datblygiad gael ei sgrinio i benderfynu a yw'n ddatblygiad lle mae angen Asesiad.

Mae Atodlen 1 yn nodi mai'r trothwy ar gyfer magu dofednod yn ddwys yw '85,000 o leoedd ar gyfer brwyliad neu 60,000 ar gyfer ieir'. Er nad yw Asesiad yn orfodol ar gyfer datblygiad arfaethedig, mewn llawer o'r adeiladau arfaethedig mae arwynebedd y llawr yn fwy na'r trothwy perthnasol o 500 metr sgwâr. Felly, at ddibenion y Rheoliadau, mae'r unedau hyn yn ddatblygiad Atodlen 2, sy'n gofyn bod yr awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi barn sgrinio. O'r herwydd, mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried y datblygiad yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Rheoliadau ac yn penderfynu a yw'n ddatblygiad lle mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ai peidio. Mae mwy gan y Gwasanaeth Ymchwil ar Asesu Effaith Amgylcheddol yn ei **Bapur Ymchwil ar Asesu Effeithiau Amgylcheddol (PDF 1.90MB)**.

## Trwyddedu Amgylcheddol

Mae unedau dofednod dwys sydd â 40,000 neu fwy o leoedd dofednod yn cael eu rheoleiddio o dan **drefn trwyddedu amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru (PDF 542KB)** yn unol â gofynion **Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yr UE**.

Elfennau craidd y drefn trwyddedu amgylcheddol yw defnyddio casgliadau'r **Technegau Gorau sydd ar Gael** ar gyfer rheoli llygredd a'r gofyniad i atal llygredd sylweddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r gofynion hyn ac eraill drwy drwyddedau amgylcheddol, sy'n gosod amodau ar sut y caniateir gweithredu'r unedau.

O dan Gyfarwyddeb yr UE, rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru bennu terfynau allyriadau sy'n sicrhau **nad yw allyriadau'n fwy na'r lefelau sy'n gysylltiedig â'r Technegau Gorau sydd ar Gael dan amodau arferol**. Mae hyn yn cynnwys y dechnoleg a'r technegau gweithredol sydd eu hangen er mwyn atal neu leihau allyriadau llygru i aer, tir a dŵr, yn ogystal â'r effaith amgylcheddol gyffredinol – gan gynnwys sŵn ac aroglau.

Fel rhan o'r broses drwyddedu, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio allyriadau posibl yn erbyn ansawdd amgylcheddol sefydledig. Dim ond os yw'n argyhoeddedig y caiff cymunedau a'r amgylchedd, gan gynnwys cynefinoedd sensitif, eu diogelu ac na chaiff llygredd sylweddol ei achosi y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi trwydded.

Yn 2017, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru **ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer atal allyriadau llygredd o unedau dofednod dwys (PDF 658KB)**, y gall ACLlau eu defnyddio yn eu proses drwyddedu amgylcheddol eu hunain. Mae'n nodi trothwyon tynach ar gyfer allyriadau amonia a nitrogen y mae angen i weithredwyr eu hystyried yn eu hasesiad. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn yn wreiddiol ym mis Hydref 2017 a byddant yn cael eu hadolygu ym mis Rhagfyr 2018.

## Datblygiadau diweddar

Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, ar 11 Mehefin 2018 ei bod wedi **gorchymyn i ganllawiau gael eu cyhoeddi i ACLlau**. Cyhoeddwyd y 'Llythyr at Brif Swyddogion Cynllunio' **y diwrnod canlynol** ac mae'n cynghori ACLlau i '[f]od yn arbennig o ofalus wrth ystyried datblygiadau a fyddai'n golygu bod unedau da byw yn agos iawn at ddefnydd sensitif o dir megis cartrefi, ysgolion, ysbytai, datblygiadau swyddfeydd neu ardaloedd sy'n sensitif yn amgylcheddol'. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i ystyried effeithiau cronol ac yn gwahodd ACLlau i gymryd rhan yng ngwaith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar lygredd nitradau ac allyriadau sydd ag arogl.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ei bod yn archwilio opsiynau ar gyfer rheolaethau llymach ar allyriadau llygru o ffermio dwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Gwasanaeth Ymchwil bod hyn yn cynnwys allyriadau llygru o unedau dofednod dwys, yn enwedig y rhai sy'n is na'r trothwy presennol ar gyfer trwyddedau amgylcheddol.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar **fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC)** rhwng mis Chwefror a mis Mai 2018. Mae Paragraffau 5.136 i 5.138 o'r **ymgyngoriad drafft (4.07MB)** yn trafod lleoliad datblygiad llygru. Disgwylir i'r fersiwn derfynol o PCC diwygiedig gael ei chyhoeddi cyn diwedd 2018.

## Y diwydiant dofednod ar ôl Brexit

Ynghyd â'r diwydiant cynnyrch llaeth, ystyrir bod y diwydiant dofednod yn **un o'r sectorau amaethyddol mwyaf cydnerth** i senarios gwahanol Brexit. Mae hyn oherwydd ei ffocws ar y farchnad fewnol yn hytrach nag allforion, yn ogystal â'i annibyniaeth gymharol ar gymorthdaliadau'r UE. Eto, mae union effaith Brexit ar y sector dofednod yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis pa dariffau a fydd yn berthnasol i fasnach rhwng yr UE a'r DU, pa farchnadoedd allforio y gellir eu defnyddio ar ôl Brexit, p'un a fydd yn rhaid i gyflenwad domestig neu o wlad nad yw'n aelod o'r UE gymryd lle mewnforion yr UE, ac i ba raddau y gallai rheoliadau amgylcheddol, iechyd anifeiliaid a diogelwch bwyd presennol newid.

Mae masnach **cig dofednod ac wyau'n** ddarostyngedig i nifer o fesurau a rheoliadau polisi'r UE, gan gynnwys **rheoliadau lles anifeiliaid**. Yn 2016, cymhwysodd yr UE **dariffau rhwng €187 a €1,283 fesul tunnell ar gyfer cig dofednod o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE (PDF 3.23MB)** (€1,024- €2,765 fesul tunnell ar gyfer cig dofednod wedi'i brosesu), gyda'r rhan fwyaf o fewnforion yn dod dan Gwotâu Cyfraddau Tariff.

Mae llifoedd masnach cig dofednod **rhwng y DU a'r UE (PDF 1.27)** yn arwyddocaol. Yn 2017, roedd allforion y DU i'r UE yn cyfrif am tua 17.5 y cant o gyfanswm cynhyrchiant y DU, ac roedd mewnforion yr UE i'r DU yn cyfrif am oddeutu 30 y cant o gyfanswm defnydd y DU. Gellir disgwyl i fewnforion dofednod trydydd gwledydd i'r DU gynyddu'n sylweddol mewn senario masnach rydd o ganlyniad i ddileu tariffau mewnforio. Byddai angen **cytundeb ar fesurau iechydol**, megis golchi clorin, y gall fod yn **anodd ei gyflawni**, ar gyfer masnach gydag UDA.

Mewn cyferbyniad, mae allforion wyau'r DU yn fach iawn ac mae mewnforion tua 15 y cant yn unig o gyfanswm y defnydd. Y **prif fater ar ôl Brexit** ar gyfer marchnad wyau'r DU fyddai masnach gyda gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE sydd ag egwyddorion is o ran lles ac iechyd anifeiliaid.

Roedd y DU 75 y cant yn hunangynhaliol mewn cig dofednod yn 2017, a **84 y cant yn hunangynhaliol mewn wyau ym 2016 (PDF 1.28MB)**. Hyd at fis Mehefin 2018, nid yw data diweddarach ar gyfer wyau ar gael ac mae data 2016 dros dro.

Er bod tariffau Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer cig dofednod **yn is na'r rhai ar gyfer cynnyrch llaeth a chig eidion**, gallai senario dim bargaen gyda thariffau Sefydliad Masnach y Byd o ganlyniad i hynny ar fasnach rhwng yr UE a'r DU gael effaith sylweddol ar farchnad y DU. Mae prisiau cig dofednod yn y DU yn debygol o gynyddu. Gallai hyn fod yn gyfle i ehangu cynhyrchiant y DU. Yn ôl Cyngor Dofednod Prydain, y diwydiant cig dofednod yw'r unig sector da byw a allai **ehangu cynhyrchiant yn gyflym** i gynyddu hunangynhaliadaeth y DU. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu bod angen **buddsoddiadau cyfalaf uchel mewn tai, penderfyniadau cynllunio pwysig**, ac ehangiad allforio sy'n gwrthbwysu'r elw bach ar gig tywyll ac offal. Yn ôl y **Sefydliad Diogelwch Bwyd Byd-eang**, cig tywyll oedd tua **thri chwarter (£300 miliwn) o allforion cig dofednod y DU** yn 2017. Er mwyn cydbwysu'r galw am gig gwyn a thywyll, byddai'n rhaid i'r DU gynyddu allforion i wledydd sy'n gwerthfawrogi cig tywyll, megis Tsieina.

Ffactorau eraill a allai atal cynhyrchwyr dofednod lleol rhag **mynd i'r afael â'r bwch yn y cyflenwad** yw effeithiau cyfunol costau cynhyrchu cynyddol a phrinder llafur. Yn ôl Cyngor Dofednod Prydain, mae'n debygol y bydd **costau cynhyrchu'n cynyddu** mewn meysydd megis prisiau porthiant, prisiau cyfleustodau a chostau cyflogaeth. Bydd y gystadleuaeth am lafur yn fater allweddol i'r diwydiant. **Mae 60 y cant o gyflogeion y sector** yn wladolion yr UE o'r tu allan i'r DU. Nododd Richard Griffiths, Prif Weithredwr Cyngor Dofednod Prydain, fod mynediad ar ôl Brexit at lafur mudol yn **hynod bwysig** a galwodd am system fisâu gwaith syml.

Nid yw cynhyrchiant cig dofednod ac wyau'n cael **cymorthdaliadau uniongyrchol o'r UE o gwbl**, felly bydd colli taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn cael llai o effaith arno na sectorau amaethyddol eraill. Rhoddir manylion am effeithiau tebygol senarios gwahanol Brexit ar incwm ffermwyr dofednod mewn **astudiaeth a gomisiynwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (PDF 932KB)**.

I gael rhagor o wybodaeth am Brexit a'r diwydiant dofednod, gweler **Adroddiad 2016 AHDB, sef Horizon (PDF 3.23)** ac Adroddiad Llywodraeth Cymru, sef **Crynodeb o Weithdai Cynllunio ar Senarios Ymadael â'r UE**.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth y DU, **Ystadegau dofednod a chig dofednod diweddaraf (Saesneg yn unig)**
- Llywodraeth y DU, **Ystadegau diweddaraf wyau'r DU (Saesneg yn unig)**
- Llywodraeth Cymru, **Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol**
- Llywodraeth Cymru, **Adroddiad is-sector dofednod Bwyd a Diod Cymru (PDF 611KB)**
- Llywodraeth Cymru, **Crynodeb o weithdai cynllunio senarios ymadael â'r UE**
- **Llyfr poced dofednod AHDB 2018 (PDF 1.28MB) (Saesneg yn unig)**
- **Adroddiad Horizon AHDB (PDF 3.23) (Saesneg yn unig)**
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, **Goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar gyfer amaethyddiaeth Prydain (PDF 932KB) (Saesneg yn unig)**